Cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 20 Medi 2016

Yn bresennol:

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Y Prif Weinidog (Cadeirydd)
- Mark Drakeford AC
- Vaughan Gething AC
- Lesley Griffiths AC
- Jane Hutt AC (o eitem 4)
- Carl Sargeant AC
- Ken Skates AC
- Kirsty Williams AC
- Mick Antoniw AC

- Syr Derek Jones KCB, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr - Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet
- Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Matt Greenough, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- David Costa, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor
- Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol (eitem 3)
- Emma Smith, Cyllidebu Strategol (eitem 3)
- Gwenllian Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Ynni Cymru (eitem 5)

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1. Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

Y Rhaglen Lywodraethu

2.1 Atgoffodd y Prif Weinidog y Cabinet y byddai'n lansio'r Rhaglen Lywodraethu yn ystod y Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw, er y byddai copïau o'r ddogfen yn cael eu rhoi ymlaen llaw i Aelodau'r Cynulliad yn nes ymlaen y bore hwnnw.

Eitem 3: Cyllideb Ddrafft 2017-18 – Dyraniadau MEG Dangosol

3.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r dyraniadau MEG dangosol ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2017-18.

3.2 Ym mis Gorffennaf, oherwydd yr ansicrwydd a achoswyd gan ganlyniad Refferendwm yr UE, roedd y Cabinet wedi cytuno i ohirio'r penderfyniad ynghylch y cyfnod dan sylw yn y rhagdybiaethau cynllunio a gyhoeddir. Ers hynny, bu rhywfaint o sicrwydd cyfyngedig o ran dyfodol rhaglenni a ariennir gan yr UE. Fodd bynnag, roedd yr ansicrwydd yn debygol o barhau o leiaf nes cael Datganiad Hydref y Canghellor ym mis Tachwedd.

3.3 Felly, cynigiwyd y byddai cynlluniau refeniw blwyddyn ar gyfer 2017-18 yn cael eu cyhoeddi.

3.4 O ran cyfalaf, roedd mwy o hyder na fyddai'r cyllidebau hyn yn cael eu lleihau, ac felly byddai rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer pedair blynedd yn cael eu cyhoeddi.

3.5 Cymeradwyodd y Cabinet y papur, gan longyfarch pawb a oedd wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi'r Gyllideb Ddrafft.

Eitem 4: Busnes Cyfarfod Llawn y Llywodraeth

4.1 Ystyriodd y Cabinet gynnwys Grid y Cyfarfodydd Llawn.

4.2 Hysbysodd Arweinydd y Tŷ y Cabinet fod Pwyllgor Busnes y Cynulliad wedi cytuno'r bore hwnnw i drefnu dwy ddadl a arweinir gan aelodau'r meinciau cefn: sef TB Buchol ar 28 Medi; a Gweithgarwch Corfforol a Theithio Llesol ar 12 Hydref.

Eitem 5: Wylfa Newydd CAB(16-17)25

5.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y papur, a oedd yn amlinellu'r cyfleoedd a'r effeithiau posibl a allai ddeillio o brosiect Wylfa Newydd, gan roi argymhellion ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar y prosiect, a rheoli'r goblygiadau, mewn modd a fyddai'n creu gwaddol parhaol yn unol â'i blaenoriaethau.

5.2 Wylfa Newydd fyddai'r buddsoddiad mwyaf yn y seilwaith yng Nghymru, gan y sector preifat, mewn cenhedlaeth. Ar ôl ei gwblhau, byddai'r safle'n darparu 2,700MW o bŵer, teirgwaith mwy na'r orsaf magnox wreiddiol. Pan fyddai'r gwaith adeiladu yn ei anterth, byddai disgwyl i'r gweithlu fod oddeutu 11,000.

5.3 Croesawodd y Cabinet y papur.

5.4 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

Eitem 6: Cynllun Cyfathrebu Blynyddol Llywodraeth Cymru 2016-17

6.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur, a oedd yn gwahodd y Cabinet i gymeradwyo Cynllun Cyfathrebu Blynyddol Llywodraeth Cymru.

6.2 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor
Medi 2016